| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Hydref 18fed 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Eryl Williams / Karen Evans** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gwenn Brockley / Julian Molloy<br>Swyddogion Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion** |

**Teitl: Asesiadau Athrawon a Chanlyniadau Arholiad Dros Dro**

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Perfformiad ysgolion ymhob cyfnod allweddol a chanlyniadau dros dro arholiadau allanol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Darperir dadansoddiad manwl o ganlyniadau i aelodau'r pwyllgor pan fydd gwybodaeth sydd wedi'i dilysu a'i meincnodi ar gael ym mis Rhagfyr.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth ynghylch perfformiad asesiadau athrawon ac arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'n adolygu ac yn cynnig sylwadau ar berfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol sydd ar hyn o bryd ar gael, ac adnabod unrhyw feysydd potensial ar gyfer gwelliant.

## 4. Manylion yr adroddiad: Canlyniadau Asesiad Athro

### 4.1 Cyfnod Sylfaen

I sicrhau cywirdeb a chysondeb ar draws ysgolion, bu tîm o athrawon Sir Ddinbych yn cynnal proses safoni fwy trylwyr i safoni Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ar draws holl ysgolion. Roedd y broses hon yn sicrhau bod gweithdrefnau yn gadarn a dibynadwy. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw broses ddilysu genedlaethol i Ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'n bwysig nodi bod hwn yn ddull gwahanol o asesu cynnydd plant. O ganlyniad, mae cymariaethau rhwng Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a'r Asesiadau CA1 blaenorol yn ddangosol ac nid yn absoliwt.

Fodd bynnag, yn nhermau safle Sir Ddinbych yn y drefn restrol, rydym wedi gweld gwelliant ar y flwyddyn flaenorol. Mae Sir Ddinbych bellach yn yr 11feg safle o blith Awdurdodau Cymru mewn cymhariaeth â safle o 18fed y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'n safle

yn y drefn restrol prydau cinio am ddim. Mae canlyniadau manwl i’w cael yn Atodiad 1.

4.2 **Canlyniadau Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 2 (CA2)**

Ar ddiwedd CA2 / Addysg Cyfnod Cynradd, disgwylir i ddisgyblion (blwyddyn 6) gyflawni Lefel Asesiad Athro o 4.

Roedd Sir Ddinbych yn 12fed yn nhrefn restrol Cymru i’r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yn 2012 i CA2, sef gostyngiad o 6 lle ers 2011 ond yr un fath â’r safle yn 2010. Er bod hyn yn cymharu’n ffafriol gyda’n safle rhestrol o ran prydau cinio am ddim, mae hyn yn siomedig oherwydd dyhead yr Awdurdod Lleol yw sicrhau bod Sir Ddinbych ymhlith y 10 Awdurdod gorau eu perfformiad yng Nghymru yn yr holl ddangosyddion allweddol. Fodd bynnag, fel yn achos yr asesiad yn y Cyfnod Sylfaenol, nid yw Asesiad yr Athro yn CA2 yn cael ei ddilysu’n Genedlaethol. Mae canlyniadau manwl i’w cael yn Atodiad 2.

4.3 **Canlyniadau Asesiad Athro Cyfnod Allweddol 3 (CA3)**

Mae perfformiad yn CA3 wedi gwella am y bumed flwyddyn o’r bron. Yn wir, mae’r holl bynciau craidd wedi gwneud gwelliannau sylweddol eleni. Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwelliant islaw nifer o awdurdodau eraill. Mae hyn wedi symud Sir Ddinbych o 13^eg^ i 17^ed^ yng Nghymru, ac mae 0.66% islaw cyfartaledd Cymru o 72.53%. Mae canlyniadau manwl i’w cael yn Atodiad 3.

4.4 **Arholiadau Allanol Cyfnod Allweddol 4**

Mae holl ysgolion uwchradd wedi gwella o ran y trothwy Lefel 1 a Lefel 2. Mae’r Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg wedi gwella 2.5% er i ddwy ysgol syrthio o ran eu perfformiad. Mae’r duedd genedlaethol o ran cyflawniad mewn Saesneg a Mathemateg wedi dirywio. Mae canlyniadau ôl-16 wedi aros yn weddol lonydd.

Mae holl ganlyniad cyfnod allweddol 4 yn rhai dros dro; bydd canlyniadau wedi’u dilysu ar gael o Dachwedd ymlaen a data meincnodi yn Rhagfyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu data ychwanegu gwerth yn y Setiau Data Craidd i awdurdodau lleol ac ysgolion.

Canran y disgyblion sy’n cyflawni’r Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg & Mathemateg yn 2012 yw 55.0% sy’n 2.5% yn uwch na 2011. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod cyfradd y cynnydd yn uwch nag Awdurdodau Lleol eraill Cymru.

Canran y disgyblion sy’n cyflawni Trothwy Lefel 2 yw 81.2%, sy’n 9.8% yn uwch na llynedd. Dyma’r bedwaredd flwyddyn i’r dangosydd Lefel 2 gynyddu yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych. Mae canlyniadau manwl i’w cael yn Atodiad 3.

4.5 **Canlyniadau Trothwy Lefel 3 (Safon A a chymwysterau galwedigaethol cywerth)**

Y dangosydd perfformiad i addysg ôl-16 yw Trothwy Lefel 3, sef 2 Safon A neu gymwysterau galwedigaethol cywerth.

Mae canran y disgyblion sy’n cyflawni Trothwy Lefel 2 wedi gwella i 98% yn 2012 o 97% yn 2011. Mae canlyniadau manwl i’w cael yn Atodiad 3.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae moderneiddio’r gwasanaeth addysg i sicrhau lefel uchel o berfformiad ar draws y sir yn un o’r blaenoriaethau corfforaethol. Mae codi cyrhaeddiad ymhob cyfnod allweddol, ac yn enwedig cyfnod allweddol 4, yn amcan allweddol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ddim yn berthnasol

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Sgriniad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb?

Ddim yn berthnasol

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Ddim yn berthnasol

## 9. Beth yw’r risgiau, ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Bydd y gefnogaeth i ysgolion mewn Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei darparu’n rhanbarthol o Ebrill 2013.

Bydd her a chefnogaeth i Benaethiaid a rheolwyr mewn ysgolion yn cael eu darparu ar sail ranbarthol o Ebrill 2013 gan Arweinwyr System. Mae’r gwaith o recriwtio’r Arweinwyr System yn digwydd yn Hydref 2012.

I leihau unrhyw risgiau i gefnogaeth a her ysgolion yn ysgolion Sir Ddinbych, bydd yn rhaid i Swyddogion Addysg o fewn yr Awdurdod fonitro ac asesu ansawdd y gefnogaeth ranbarthol pan fydd y systemau a’r strwythurau newydd hyn yn eu lle yn Ebrill 2013.
Mae yna gyfle i swyddogion sy’n gweithio i’r rhanbarth gryfhau’r broses safoni i Asesiadau Athro Cyfnod Allweddol 3. Dylai hyn wella ansawdd

safoni allanol, a sicrhau parhad a chysondeb Asesiadau Athro ar draws Gogledd Cymru.

Cynnal y gwelliant mewn asesiadau athro a chanlyniadau arholiadau allanol.

Ansicrwydd ynghylch parhad y Grant Llwybrau Dysgu 14-19 ac arian ‘Potensial’ ESF ar ôl 2014 sydd wedi llwyddo i gefnogi gwelliannau yng Nghyfnod Allweddol 4.

Ymdrin â hyn trwy fonitro’n agos ysgolion sy’n tanberfformio ac ysgolion risg uchel. Darparu cefnogaeth a hyfforddiant i ysgolion a dargedir. Adolygu cynnydd ysgolion yn rheolaidd ac ymyrryd os nad yw’r cynnydd yn ddigonol.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Ddim yn berthnasol